Mae modd cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg,

Mae modd rhannu'r holl swyddi os na nodir fel arall.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn:-

- cyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned .
- cyflogwr sydd wedi ymrwymo i fod yn hyderus o ran anabledd
- cyflogwr sydd yn gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog
- ymwybodol o Awtistiaeth ac wedi ymrwymo i ddileu unrhyw rwystrau at gyflogaeth
- ymrwymo i gefnogi pobl ifanc sydd yn gadael ein gofal i gael cyfleoedd newydd a phrofiad.

PROFFIL Y RÔL

TEITL Y RÔL: Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Preswyl
Gwasanaethau Plant

RHIF ADNABOD Y RÔL: SCS507

GRADD: BAND M SCP 47– SCP 51 £55,747- £60,340

ORIAU: 37 awr yr wythnos

PATRWM: 9 AM – 5 PM dydd Llun - Iau a 9 am – 4.30 am dydd Gwener

LLEOLIAD: Neuadd y Sir Brynbuga – fel rhan o'r rôl, byddwch yn gweithio yn y swyddfa a'n gweithio o gartref

YN ATEBOL I: Pennaeth Gwasanaethau Plant

Mae Gwasanaethau Plant Sir Fynwy wedi parhau â'u hymgyrch i ail-lunio a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu Plant sy'n Derbyn Gofal ac i fodloni gofynion cynllun blaengar Llywodraeth Cymru i gefnogi Awdurdodau Lleol i ddatblygu Cartrefi Preswyl i Blant a gwasanaethau Gofal Preswyl o ansawdd uchel yng Nghymru.

Er mwyn cwrdd â'r her hon, mae cyfle i ymuno â thîm arwain cadarn sydd wedi'i hen sefydlu ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o ansawdd uchel i blant Sir Fynwy. Rydym yn chwilio am Swyddog Arweiniol i'n helpu i ddatblygu eiddo yn gartrefi preswyl bach i blant ac i sicrhau, lle bo'n bosibl, bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn byw yn eu sir gartref gan ganiatáu iddynt gynnal rhwydweithiau teuluol, parhau ag addysg a derbyn y cymorth therapiwtig sydd ei angen.

Pwrpas y Rôl :-

Mae hon yn rôl arwain allweddol yn y Gwasanaethau Plant i arwain ar ddatblygu a goruchwylio darpariaeth llety preswyl a chymorth Sir Fynwy.

Ein Disgwyliadau:

Byddwch yn arwain ar sicrhau datblygiad eiddo o'r safon uchaf a datblygiad cartrefi i blant a phobl ifanc gan gynnwys lleoliadau tymor byr a thymor hir, lleoliadau brys a llety â chymorth i bobl ifanc sy'n trosglwyddo o ofal.

Bydd angen i chi oruchwylio datblygiad Polisi ac Ymarfer yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau statudol gan sicrhau'r lefel uchaf o ddiogelu yn eich meysydd cyfrifoldeb.

Byddwch yn gyfrifol am sicrhau dull strategol o ddatblygu a gweithredu modelau gofal preswyl sy'n bodloni'r canlyniadau llesiant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Bydd y rôl hon yn cynnwys goruchwyllo a chydymffurfiaeth o ddydd i ddydd â Chartrefi Plant Cofrestredig fel yr Unigolyn Cyfrifol (U.C.) a datblygu perthnasoedd gwaith ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Prif Gyfrifoldebau

- Mewn cydweithrediad ag eraill, byddwch yn gosod gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau preswyl plant a phobl ifanc ar draws Sir Fynwy.
- Cydweithio gyda'r Rheolwyr Gwasanaeth a Phennaeth Gwasanaeth i siapio a gyrru datblygiad gwasanaethau, protocolau, a gweithdrefnau i gefnogi newid diwylliant, cwrdd ag agenda Llywodraeth Cymru a Chynllun Busnes Gwasanaethau Plant.
- Datblygu perthynas waith gref gyda'n cydweithwyr awdurdodau lleol yn y gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Ystadau i nodi eiddo addas a bod yn arweinydd wrth ddatblygu darpariaeth breswyl i blant 5-16 oed sy'n cydymffurfio â rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Arwain ar ddatblygiad llety Byw â Chymorth 16+ a fydd yn cynorthwyo datblygiad sgiliau bywyd i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt bontio i fyd oedolion.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn cael mynediad a gwneud y mwyaf o'r holl gyllid grant sydd ar gael, a chyfleoedd. Olrhain, monitro ac adrodd ar yr holl gynnydd i sicrhau bod telerau popeth yn cael eu bodloni'n briodol.
- Adolygu a datblygu modelau o ddarpariaeth gofal preswyl, ac arwain ar ddatblygu darpariaeth Gofal Preswyl Sir Fynwy.
- Gweithio gyda Chomisiynu, Caffael a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu Manyleb Gwasanaeth ar gyfer darparu Llety â Chymorth 16+.
- Cydweithio a datblygu cysylltiadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru a sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau RISCA i gyflawni Cofrestriad AGC ar gyfer cartref gofal i blant a phobl ifanc o dan 16 oed;
- Recriwtio a rheolwr llinell ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig profiadol a gweithlu â'r sgiliau priodol ar bob lefel.
- Datblygu polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau ar gyfer rhedeg cartrefi gofal o ddydd i ddydd sy'n unol â 'hawliau'r plentyn' (CCUHP) sy'n bodloni'r safonau a ddisgwylir gan AGC a Gwasanaethau Plant Sir Fynwy.
- Datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ar draws y gwasanaeth gan gynnwys rhaglen archwilio sy'n monitro ac adolygu perfformiad a chanlyniadau gan ddefnyddio data ac adborth gan blant, teuluoedd, y gweithlu, a rhanddeiliaid eraill, i sicrhau bod y safon broffesiynol uchaf yn cael ei chynnal ac i sicrhau bod lles a diogelu plant yn cael eu cynnal.
- Ymchwilio, rheoli a monitro unrhyw gŵyn, damwain neu ddigwyddiad nodedig a chysylltu â Gwasanaethau Plant ac AGC i sicrhau tryloywder y broses;
- Monitro ac adrodd yn barhaus ar reoli perfformiad, adolygu a diwygio'r ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yr angen i wella'r gwasanaethau a ddarperir a chanlyniadau.
- Darparu arweiniad strategol a gweithredol i reolwyr a throsolwg o staff preswyl sy'n darparu gwasanaethau i Blant sy'n Derbynn Gofal.
- Pan fo angen paratoi a chyflwyno adroddiadau, neu gyflwyniadau i Uwch Arweinwyr y cyngor, y Pwyllgor Craffu a'r cyngor ehangach.

- Hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad a chyfranogiad ein plant a phobl ifanc wrth gynllunio, darparu a gwerthuso eu gofal preswyl, gan sicrhau bod eu barn a'u dymuniadau yn cael eu clywed a'u parchu.
- Ymgysylltu a meithrin partneriaethau ag asiantaethau a sefydliadau eraill, megis ysgolion, gwasanaethau iechyd, y sector gwirfoddol, neu grwpiau cymunedol, i wella'r cyfleoedd a'r canlyniadau i'n plant a phobl ifanc mewn gofal preswyl.
- Sicrhau bod data a gwybodaeth berthnasol yn cael eu dadansoddi a'u hadrodd er mwyn cyrraedd targedau ac amcanion Llywodraeth Cymru a thargedau ac amcanion statudol eraill.

Unigolyn Cyfrifol – UC

Byddwch yn dal rôl yr Unigolyn Cyfrifol fel y nodir yn Neddf Cofrestru ac Arolygu Gofal Cymdeithasol [Cymru] 2016.

Mae'r rôl hon yn cynnwys Cyfrifoldebau.

- Sicrhau bod goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth [Rheoliad 60] hynny:
 - canolbwyntio ar lesiant a chanlyniadau personol unigolion;
 - gwrandao ar unigolion;
 - ymateb yn gadarnhaol i unrhyw bryderon neu gwynion;
 - nad yw'n rhoi unigolion mewn perygl diangen;
 - yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i unigolion;
 - yn cyflawni'r datganiad o ddiben;
 - sicrhau niferoedd digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi, yn gymwys ac yn fedrus i gyflawni eu rôl.
- Byddwch yn ymweld â phob un o'r gwasanaethau a reoleiddir o leiaf bob tri mis [Rheoliad 73] i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â'u 'Datganiad o Ddiben' ac i sicrhau goruchwyliaeth ansoddol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau ac aelodau o'n timau. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer pob ymweliad.
- Cyfrifoldeb am sicrhau bod adnoddau'n ddigonol ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir; yn ymwneud ag arian a staff. [Rheoliad 74]
- Bod trefniadau addas mewn lle i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys adroddiad chwe-misol ar ansawdd y gwasanaeth ac argymhellion ar gyfer gwella [Rheoliad 80].
- Byddwch yn cwblhau datganiad cydymffurfio a'r ffurflenni blynyddol ar gyfer y gwasanaeth [Rheoliad 81].

Adnoddau Ariannol a Ffisegol

- Yn gyfrifol am reoli cyllideb yn eich maes gwasanaeth a gweithio ar y cyd â swyddogion cyllid i sicrhau bod yr holl bolisiâu, prosesau a gweithdrefnau ariannol yn cael eu dilyn. Sicrhau bod rheolaeth gyllidol glir a llywodraethu corfforaethol effeithiol ar waith.
- Sicrhau bod pob cynllun prosiect yn cyflwyno strategaethau moderneiddio gwasanaeth yn unol â'r agenda lleihau costau.

- Byddwch yn gyfrifol am fantoli'r gyllideb yn unol â phroses cyllideb y Cyngor. Cyflawni defnydd effeithiol, monitro a rheolaeth o gyllidebau gweithredol o fewn meysydd cyfrifoldeb.
- Sicrhau bod systemau llywodraethu cadarn (gweithredol, ariannol, staff, archwilio a gwybodaeth) a rheoli risg yn eu lle.
- Byddwch yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i wneud y mwyaf o'r holl adnoddau ariannol.

Adnoddau Dynol, Hyfforddiant a Datblygiad

- Rheolwr llinell a byddwch yn gyfrifol am sicrhau system effeithiol o reoli perfformiad, gan gynnwys gwerthuso a datblygiad personol, ar gyfer eich adroddiadau a'ch timau uniongyrchol, gan gynnwys olyniaeth weithredol a chynllunio'r gweithlu.
- Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rheoli dros faterion adnoddau dynol o fewn eich meysydd cyfrifoldeb.
- Gweithio gydag Adnoddau Dynol a'r Gweithlu i sicrhau bod polisïau a phrosesau Adnoddau Dynol cadarn yn eu lle ym mhob maes cyfrifoldeb gweithredol.
- Sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn rheoli adnoddau dynol yn effeithiol gan sicrhau bod polisïau proffesiynol a rheolwyr llinell perthnasol yn cael eu dilyn bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod.
- Sicrhau bod prosesau recriwtio, dethol, sefydlu staff, hyfforddi, datblygu, blaenoriaethu llwyth gwaith, goruchwyliaeth broffesiynol, gwerthuso ac adolygiadau perfformiad effeithiol yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol perthnasol.
- Cydlynu a chynhyrchu trefniadau cynllun hyfforddi mewn perthynas â DPP i sicrhau bod yr holl staff yn eich timau wedi darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu gwerthuso digonol iddynt sy'n bodloni gofynion hyfforddi statudol, gorfodol a chofrestredig.
- Sicrhau y gellir monitro cymwyseddau ac anghenion datblygu, gallu ac ymddygiad a mynd i'r afael â hwy yn unol â strwythurau / safonau proffesiynol presennol.
- Sicrhewch eich bod yn ymgymryd â'ch datblygiad proffesiynol eich hun, gan gymryd rhan weithredol yn eich gwerthusiad blynyddol eich hun a'ch goruchwyliaeth reolaidd.
- Byddwch yn sicrhau bod anghenion hyfforddiant ac addysg yn cael eu diwallu mewn perthynas â deddfwriaeth / deddfau newydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Beth Ydym yn Chwilio Amdano?

- Profiad rheoli sylweddol gan awdurdodau lleol neu sefydliadau cyfatebol;
- Profiad a gwybodaeth am reoli prosiectau strategol;
- Profiad o ddatblygu staff, tîm a gwasanaeth, a rheoli'r broses newid gyda maes gwasanaeth;
- Profiad o gefnogi staff, arwain newid a datblygu gwasanaethau mewn meysydd o dimau Gwasanaethau Plant neu wasanaethau preswyl;

- Profiad o arwain a rheoli prosiectau, a rhaglenni gwaith sy'n cefnogi gweithredu cynlluniau datblygu gwasanaeth ac sydd â chanlyniadau gwell amlwg i blant a theuluoedd;
- Sgiliau arwain mewn fforymau mewnol ac allanol sy'n cynrychioli gweledigaeth, a blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol;
- Sgiliau arwain sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth, cydweithredu gwasanaethau a darparu gwasanaethau;
- Dealltwriaeth a phrofiad o feysydd o'r gwasanaeth sy'n destun Rheoliadau, a'r gallu i weithio'n agored gyda chyrff Rheoleiddio.

Beth arall sydd angen i chi wybod.....Ein Gwerthoedd:

Caiff ein diben ei seilio ar ymdeimlad clir o bwy ydym fel sefydliad. Disgwyliwn i'r bobl sy'n gweithio gyda ni i rannu set gref o werthoedd a disgwyliwn y bydd y rhain yn amlwg yn y ffyrdd y gweithiwn ac yr ymgysylltw'n gyda'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'ch partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau glas o'r syniadau a'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sy'n bwysig.

Hyblygrwydd: Rydym yn hyblyg, gan alluogi darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau i ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb y gweithiwn gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym gyda'n gilydd wrth galon bob rhyngweithio.

A bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy er mwyn cyflawni hyn.

ASESIAD O'R IAITH GYMRAEG:

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol. Efallai y bydd gofyn i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol trwy fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg staff a ariennir gan y Cyngor. Gweithredir hyn os cyfyd angen am sgiliau Cymraeg yn y rôl.

DIOGELU:

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Mae holl weithwyr a gwirfoddolwyr y Cyngor yn gyfrifol am chwarae rhan yng ngwaith lles, diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl. Bydd yr holl weithwyr a gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i'r lefel

briodol o ddiogelu ac mae ganddynt ddyletswydd i gyflawni eu cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

AT HYN:

Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn amodol ar Wiriad Datgeliad Manwl a dau dystlythyr ysgrifenedig addas cyn penodi.

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed ac mae'n disgwyl i bob gweithiwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae'r holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gydnaws â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu meysydd o gyfrifoldeb ac fel rhan o'u hymddygiad cyffredinol.

Manyleb Person

Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-

Arweinyddiaeth a Rhinweddau Personol	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
<p>Arweinydd a yrrir gan werth gydag ethos gwasanaeth cyhoeddus cryf</p> <p>Y gallu i arwain, ysbrydoli hyder mewn cydweithwyr, pobl sy'n defnyddio, staff a phartneriaid</p> <p>Y gallu i drosi a chyfathrebu cyfeiriad strategol yn ddarpariaeth weithredol</p> <p>Y gallu i weithio mewn ffordd systematig a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus</p> <p>Yn emosiynol ddeallus ac yn gallu cydymdeimlo a chyflawni canlyniadau cadarnhaol yn y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth</p> <p>Hunan-gymhelliant a deinamig</p> <p>Y gallu i weithio dan bwysau, rheoli amser, cwrdd â therfynau amser wrth wneud yr hyn sy'n bwysig.</p> <p>Dull dadansoddol o ddefnyddio tystiolaeth i hyrwyddo newid</p> <p>Gallu gweithio mewn partneriaeth a rheoli perthnasoedd rhyng-sefydliadol cymhleth ar lefelau uwch</p> <p>Gradd uchel o wydnwch</p> <p>Synnwyr digrifwch</p>	Pob un yn hanfodol	Bydd pob un yn cael ei brofi ar bob cam o'r broses asesu
Addysg a Hyfforddiant Arbennig	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Cymhwyster gwaith cymdeithasol proffesiynol neu brofiad cymhwyster proffesiynol cyfatebol mewn maes perthnasol	Dymunol	Bydd pob un yn cael ei brofi ar bob cam o'r broses asesu
Cymhwyster rheolaethol perthnasol	Dymunol	
Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus	Hanfodol	
Profiad	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
<p>Tystiolaeth o ddatblygu, rheoli, arwain a gwerthuso gwasanaethau sy'n cyd-fynd â chartrefi Preswyl i Blant neu dimau Gwasanaethau Plant Statudol</p> <p>Tystiolaeth o arwain newid diwylliant ac ymarfer o fewn timau, meysydd neu ar draws gwasanaeth.</p> <p>Profiad o reoli risg sy'n gysylltiedig â lles plant.</p> <p>Dealltwriaeth a phrofiad o anghenion a chryfderau Plant sy'n Derbyn Gofal neu blant sydd â phrofiad o brosesau amddiffyn plant statudol.</p> <p>Dealltwriaeth neu brofiad o Wasanaethau Lleoli neu Faethu</p> <p>Tystiolaeth o reoli ac arwain gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth llwyddiannus</p> <p>Tystiolaeth o gysylltu a chydgyssylltu darparwyr gwasanaethau amlasiantaethol perthnasol i wella canlyniadau gwasanaeth</p> <p>Tystiolaeth o arwain newid a phrosiectau gyda chanlyniadau llwyddiannus</p>	Pob un yn hanfodol	Bydd pob un yn cael ei brofi ar bob cam o'r broses asesu

<p>Profiad o reoli cyllidebau a thystiolaeth o gyflawni arbedion ariannol heriol</p> <p>Tystiolaeth o ymgysylltu'n weithredol â phobl a gofalwyr wrth gyflwyno a chynllunio gwasanaethau</p> <p>Profiad o weithredu o fewn a rheoli fframweithiau perfformiad</p> <p>Profiad o gyflwyno rhaglenni datblygu sefydliadol a newid diwylliannol</p> <p>Profiad o ymdrin ag achosion unigol cymhleth iawn ac achosion unigol sy'n cael eu herio</p> <p>Profiad o ddarparu dadansoddiad proffesiynol o fewn lleoliad cyfreithiol neu gymhleth.</p> <p>Profiad o ddylunio a gweithredu systemau gwella ansawdd yn barhaus</p>		
Gwybodaeth	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
<p>Dealltwriaeth o'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n ymwneud â chofrestru a darparu gwasanaethau preswyl sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar 'Hawliau'r Plentyn'. (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - UNICEF UK)</p> <p>Deall rôl a chyfrifoldeb yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer cartrefi gofal cofrestredig i blant</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau monitro perfformiad, mesurau ansawdd a threfniadau llywodraethu proffesiynol</p> <p>Gwybodaeth, profiad a sgiliau mewn perthynas â phrosesau sicrhau ansawdd llywodraethu proffesiynol a gofal cymdeithasol</p> <p>Gwybodaeth a dealltwriaeth o bob agwedd ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Plant (rhan 6 o'r cod ymarfer ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya.pdf (llyw.cymru))</p> <p>Gwybodaeth ymarferol dda o gyfle cyfartal a hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol</p> <p>Dealltwriaeth fanwl o gymhlethdodau rheoli gwasanaethau gofal cymdeithasol plant</p>	Dymunol	Pob un yn hanfodol
Arall	Hanfodol / Dymunol	Dull Asesu
Gallu symud yn annibynnol o fewn ardal ddaearyddol	Hanfodol	Ffurflen Gais

Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: **Diane Corrister Pennaeth Gwasanaeth** - dianecorrister@monmouthshire.gov.uk

Dyddiad Cau: 5 PM 2/5/24

CYFWELIADAU I'W CYNNAL YN NEUADD Y SIR, BRYNBUGA AR 22/5/24



monmouthshire
sir fynwy

FFRAMWAITH SGILIAU YN Y GYMRAEG

LEFEL 1

Gall ddeall ymadroddion sylfaenol bob dydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir ac yn fodlon helpu. Gall gyflwyno ei hunan ac eraill a gall ofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth sylfaenol e.e. unigolyn yn gofyn am weld rhywun, ble mae cyfarfod xxx, toiled ac yn y blaen. Gall drosglwyddo galwadau ffôn, cyfleu neges fer neu wneud cais syml e.e. drwy e-bost.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall cwestiynau syml: lle mae cyfarfod xxx, pwy yw'r person y dymunant ei weld. Gall ddeall i bwy i drosglwyddo galwad ffôn ac yn y blaen. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ynganu enwau lleoedd ac enwau personol yn gywir. ➤ Gall gyfarch unigolion wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. ➤ Gall agor a chau sgwrs neu agor a chau cyfarfod. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen brawddeg fer, e.e. arwyddion syml, cyfarwyddiadau syml, eitemau agenda, gwybodaeth syml ar ffurflenni. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall agor a chau neges e-bost neu lythyr ➤ Gall ysgrifennu enwau personol, enwau lleoedd, teitlau swyddi. ➤ Gall ysgrifennu neges syml i gydweithwyr ar bapur neu e-bost e.e. mae hwn a hwn wedi galw.

LEFEL 2

Gall ddeall brawddegau pan mae pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol a theuluol syml. Gall gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun i gael neu gyfnewid gwybodaeth syml, e.e. trafod sut mae person yn teimlo; rhywbeth a ddigwyddodd; cynllun syml ar gyfer y dyfodol. Gall ysgrifennu a deall negeseuon mewn llythyrau neu negeseuon e-bost yn disgrifio materau cyfarwydd ac ysgrifennu mewn brawddegau byr.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd bob dydd e.e. rhoi gwybodaeth bersonol, siarad am beth fuont yn ei wneud, yr hyn yr hoffent ei wneud, sut y teimlant yn gyffredinol ➤ Gall ddeall pan mae pobl yn gofyn iddynt wneud rhywbeth 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfathrebu gwybodaeth syml neu ofyn cwestiynau cyffredin, e.e. cael gwybodaeth gan unigolion. ➤ Gall ddefnyddio'r Gymraeg i gyrraedd a dangos empathi gydag unigolyn ond dim i gynnal yr holl sgwrs neu sesiwn yn y Gymraeg. ➤ Gall gynnal sgwrs fer gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond bydd angen troi i'r Saesneg ar gyfer termau arbenigol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen negeseuon byr a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost, e.e. rhai sy'n gwneud cais neu'n gofyn am gyfleu neges 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu neges fer at gydweithwyr gofyn cwestiwn, yn diolch iddo/iddi, esbonio rhywbeth e.e. amser a lle cyfarfod ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost i drefnu apwyntiad

LEFEL 3

Gall ddeall y prif bwyntiau pan mae unigolyn neu gydweithiwr yn siarad am bynciau cyfarwydd e.e. yn ystod sgwrs neu gyfarfod grŵp bach. Gall gynnal sgwrsiau estynedig gyda siaradwyr rhywun am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith bob dydd. Gall ddisgrifio profiadau a digwyddiadau a rhoi esboniadau am a rhesymau cryno am farnau a chynlluniau. Gall ddarllen erthyglau, llythyrau neu negeseuon e-bost am bynciau cyffredinol. Gall ysgrifennu llythyrau neu negeseuon e-bost am y rhan fwyaf o bynciau, e.e. yn gofyn am rywbeth; rhoi gwybodaeth; gwahodd rhywun neu drefnu digwyddiad.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr wrth gyfnewid gwybodaeth neu drafod 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgwrsiau gyda chydweithwyr am waith a 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost neu lythyrau'n ymwneud â gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu llythyr neu neges e-bost i unigolyn neu gydweithiwr am y rhan fwyaf



<p>cynlluniau, os yw'r pwnc yn gyfarwydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddeall trafodaeth mewn cyfarfod os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddeall unigolion a chydweithwyr mewn sefyllfa gyfarwydd neu mewn sgwrs bob dydd. 	<p>chynlluniau os nad yw'r eirfa yn rhy dechnegol.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gynnal sgwrs gydag unigolyn neu gyfnewid gwybodaeth cymharol syml. ➤ Gall gyfrannu at gyfarfod ond gall fod angen troi i'r Saesneg am dermau arbenigol. ➤ Gall addasu cywair iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<p>dydd i ddydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddyfalu ystyr gair yn seiliedig ar gyd-destun os yw'r pwnc yn gyfarwydd. ➤ Gall ddarllen erthygl syml a rhwydd mewn papurau newydd neu fathau o ddeunydd ysgrifenedig mewn cylchgrawn. 	<p>o bynciau er mwyn gofyn am rywbeth; esboniad; disgrifio profiad neu sefydliad gwahodd pobl neu drefnu digwyddiad.</p>
--	---	---	--

LEFEL 4

Gall fel arfer ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau anghyfarwydd. Gall siarad yn hyderus gyda siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd yn ymwneud â gwaith mynegi barn, cymryd rhan mewn trafodaeth a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol e.e. mewn cyfarfodydd neu sefyllfaoedd un-i-un gydag unigolion. Gall ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth erthyglau papur newydd ac adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr rhugl gyda chymorth adnoddau Cymraeg a gall fwrw golwg dros destunau hir i ganfod manylion. Gall lenwi ffurflenni ysgrifennu adroddiadau'n ymwneud â gwaith ac ymateb yn gywir.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn y rhan fwyaf o sgysiau a thrafodaethau gydag unigolion neu gydweithwyr hyd yn oed os yw'r deunydd pwnc yn anghyfarwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gyfrannu'n effeithlon at gyfarfodydd mewnol ac allanol mewn cyd-destun gwaith. ➤ Gall sgwrsio'n gysurus gydag unigolion a chyfnewid gwybodaeth fel sydd angen. ➤ Gall ddadlau dros ac yn erbyn achos penodol. ➤ Gall gadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r gadair yn hyderus. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen y rhan fwyaf ohebiaeth a bwrw golwg ar destunau hir i ganfod manylion. ➤ Gall ddeall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd gyda chymorth geiriadur. ➤ Gall ddeall testunau, os na ysgrifennwyd mewn dull ffurfiol iawn neu dafodieithol. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall gynhyrchu gohebiaeth o bob math adroddiadau byr, dogfennau a llenyddol gyda chymorth offer cyfieithu Cymraeg Cysgair, Cysill.

LEFEL 5

Gall ddeall popeth a gaiff ei ddweud. Gall siarad yn helaeth am faterion cymhleth, gan gyflwyno gwybodaeth anodd a gall hwyluso a chrynhoi trafodaethau estynedig neu gymhleth. Gall grybodaeth o wahanol ffynonellau (yn llafar ac yn ysgrifenedig) a'i chyflwyno mewn modd cydlynus. Gall fynegi ei hunan yn fyrfyr, rhugl ac yn fanwl, gan addasu'r iaith i weddu i'r gynulleidfa.

DEALL	SIARAD	DARLLEN	YSGRIFENNU
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth gydag unigolion neu gydweithwyr. ➤ Gall ddeall amwysedd a naws iaith. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall fynegi ei hunan yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth ➤ Gall addasu arddull a chywair yr iaith i weddu i'r gynulleidfa. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ddarllen a deall bron bob testun ysgrifenedig heb anhawster, gan ddefnyddio geiriadur yn achlysurol. ➤ Gall ddarllen testunau hir i ganfod manylion perthnasol a gall ddeall y rhan fwyaf o fathau o ddeunydd ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall ysgrifennu adroddiadau mewn arddull glir addas i'r darlennydd gyda chefnog offer cymorth iaith electronig. ➤ Gall ysgrifennu Cymraeg ffurfiol anffurfiol yn ôl yr angen. ➤ Gall ysgrifennu ystod o ddogfennau gywir ac yn hyderus.

